

Crynodeb Gweithredol

Cyflwyniad

Comisiynwyd Collingwood Environmental Planning (CEP) Limited gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ym mis Rhagfyr 2015 i gynnal adolygiad o ffocws ymgysylltiad cymunedol Ymwybyddiaeth Llifogydd Cymru.

Nodau cyffredinol yr adolygiad oedd:

1. Asesu effeithiolrwydd dulliau gweithredu CNC hyd yma, yn benodol yng nghyswllt y model gweithredu cyfredol – sef datblygu cynlluniau llifogydd, sy'n cael eu cefnogi a'u cynnal gan wirfoddolwyr llifogydd lleol.
2. Darparu tystiolaeth ac argymhellion sy'n tynnu ar arfer gorau a dulliau gweithredu lleol, cenedlaethol a rhyngwladol hyd yma, er mwyn llywio ymarfer yn y dyfodol o ran cynyddu gwytnwch cymunedau yn wyneb llifogydd ledled Cymru.

Datblygwyd rhaglen Ymwybyddiaeth Llifogydd Cymru gan Lywodraeth Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (CNC bellach) yn 2010 i gyfrannu at gyflawni amcanion rheoli risg llifogydd ac erydiad arfordirol trwy gynyddu ymwybyddiaeth a sicrhau bod cymunedau'n fwy parod amdanynt. Ymgysylltiad unigol oedd y ffocws cychwynnol yn bendant, er bod cynlluniau llifogydd cymunedol wedi cael eu datblygu hefyd, ond roedd y cyfnod diweddaraf (Cyfnod 4) yn cynnwys mwy o ymgysylltu ar lefel gymunedol, gan gynnwys gwaith mewn partneriaeth ag Awdurdodau Llifogydd Arweiniol Lleol, ffocws ar ddatblygiad Cynlluniau Llifogydd Cymunedol, gwaith gydag arweinyddion cynlluniau llifogydd a gwaith gydag ysgolion a busnesau.

Defnyddiwyd cyfuniad o ddulliau gweithredu i gasglu data ar gyfer yr adolygiad. Roedd hyn yn cynwys adolygiad tystiolaeth, arolwg o wirfoddolwyr cynlluniau llifogydd (a gwblhawyd gan 40% o'r 89 o wirfoddolwyr y cysylltwyd â hwy), cyfweiliadau gyda 20 o wirfoddolwyr cynlluniau llifogydd a chyfweiliadau gyda 12 o bartneriaid proffesiynol. Er mai sampl bychan yw hwn, rydym yn hyderus ei fod yn cynrychioli'r ystod o wirfoddolwyr cynllun llifogydd gweithredol a fu'n ymgysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru.

Nododd yr adolygiad fodel rhesymeg syml ar sail rhagdybiaethau sylfaenol Ymwybyddiaeth Llifogydd Cymru o ran sut byddai adnoddau a gweithgareddau'r rhaglen yn cynhyrchu'r canlyniadau a'r effeithiau arfaethedig. Drwy gasglu a dadansoddi tystiolaeth o bob un o wahanol weithgareddau Ymwybyddiaeth Llifogydd Cymru roedd modd gweld i ba raddau y cafodd y rhagdybiaethau hyn eu cadarnhau, a sut bu'r gwahanol weithgareddau yn cyfrannu at ganlyniadau'r rhaglen.

Canfyddiadau

Effeithiolrwydd rhaglen Ymwybyddiaeth Llifogydd Cymru

Cafwyd bod y rhaglen yn gweithredu mewn modd targedig, ac yn defnyddio dulliau hyblyg i gydweddu â phob cymuned, gan adlewyrchu arfer da wrth ymgysylltu. Cyflawnwyd allbynnau amlwg ar ffurf datblygiad Cynlluniau Llifogydd Cymunedol a recriwtio gwirfoddolwyr yn gysylltiedig â hynny, gyda CNC yn rhagori ar ei dargedau ar gyfer 2015/2016. Roedd cynlluniau llifogydd yn cael eu gweld fel dogfennau 'byw' sy'n helpu i ffurfioli rhwydweithiau, perthnasoedd a chymunedau gweithredu a gyflawnir os bydd llifogydd. Roedd partneriaid a gwirfoddolwyr yn teimlo bod y rhaglen yn llwyddiannus, ac roeddent yn cael bod y templedi, yr arbenigedd a'r gefnogaeth a ddarparwyd yn ddefnyddiol iawn.

Gwerth gwaith newydd o'i gymharu â chynnal buddsoddiad blaenorol

Mae ffurf gyfredol Ymwybyddiaeth Llifogydd Cymru a'r targedau a ddiffiniwyd ar gyfer y rhaglen yn awgrymu bod sefydlu Cynllun Llifogydd Cymunedol fel allbwn, a chynnal y cynllun hwnnw, yn gyfnodau gweithredu ar wahân. Fodd bynnag, canfu'r adolygiad fod gwirfoddolwyr cynlluniau llifogydd yn gweld eu gwaith fel proses barhaus, a'r Cynllun Llifogydd Cymunedol fel rhywbeth deinamig sy'n esblygu. Mae'r llenyddiaeth ynghylch meithrin ymddiriedaeth a rhwydweithiau rhwng dinasyddion ac awdurdodau yn cydnabod bod y broses hon yn cymryd amser ac adnoddau, a bod angen ymgysylltu'n barhaus ar ôl ei sefydlu os ydyw i barhau. Cyfeiriwyd yn aml yn y cyfweiliadau at y digwyddiadau rhwydweithio i wirfoddolwyr a drefnwyd gan CNC fel rhai gwerthfawr a llawn gwybodaeth, oedd yn rhoi cyfle i wirfoddolwyr siarad â rhanddeiliaid, cael eglurhad ar faterion a dysgu oddi wrth ei gilydd.

Gwella a chynyddu effeithiolrwydd yn y dyfodol

Ar hyn o bryd, CNC sy'n arwain y model o ymgysylltu â chymunedau, gyda ffocws ar ddatblygu Cynlluniau Llifogydd Cymunedol. Fel y nodwyd uchod, mae'r model hwn yn gweithio'n effeithiol, ond canfyddiad CNC ohono yw ei fod yn galw am lawer o adnoddau. Dyma rai o'r anawsterau sy'n gysylltiedig â'r dull gweithredu hwn:

- Yr amser a gymerir i ddod i ddeall cymunedau, canfod rhwystrau posibl i ymgysylltiad a chyfathrebu'n effeithiol.
- Ffocws ar y cynllun llifogydd yn hytrach nag ar rymuso gwirfoddolwyr llifogydd: os oes gan gymunedau grwpiau llifogydd sefydledig, mae tuedd iddyn nhw fod yn fwy gweithredol a bod â mwy o berchnogaeth ar eu cynllun llifogydd, gyda llai o ddibyniaeth ar CNC i arwain y ffordd.

Rolau CNC, sefydliadau proffesiynol eraill a'r cyhoedd wrth gyflawni ymgysylltu cymunedol yn y dyfodol

Roedd partneriaid proffesiynol yn cydnabod yr angen am gydweithio traws-sefydliadol er mwyn cael mynediad i'r ystod o offer, sgiliau ac adnoddau sy'n ofynnol wrth ddelio gyda'r holl faterion gwytnwch mae cymunedau'n eu hwynebu. Fodd bynnag, mae tensiwn rhwng y dyhead i gydweithio'n fwy a'r rolau mae sefydliadau partner yn barod i'w cyflawni: roedd nifer o'r bobl broffesiynol a gafodd gyfweiliad yn meddwl y byddai CNC yn parhau i gyflawni gweithgareddau tebyg i'w rôl yn Ymwybyddiaeth Llifogydd Cymru. Yn yr un modd, roedd partneriaid proffesiynol yn galw am wneud aelodau o'r cyhoedd yn bartneriaid yn y camau gweithredu a gymerir ar lefel unigol a chymunedol i reoli risg llifogydd, ond dywedodd sawl un o'r cyfweleion y dylai CNC barhau i arwain yr ymgysylltiad gweithredol â chymunedau yng nghyswllt llifogydd.

Gweledigaeth hir dymor ar gyfer gwytnwch cymunedol ac ymgysylltiad i Gymru

Roedd dros 90% o'r gwirfoddolwyr cynlluniau llifogydd yn yr arolwg yn hyderus y byddai eu cymunedau yn parhau i weithredu eu cynlluniau llifogydd yn y dyfodol, ac roedd y mwyafrif yn bwriadu parhau i ymwneud â hynny eu hunain. Mynegwyd pryder gan rai y gallai diffyg adnoddau CNC wneud hynny'n anoddach, neu hyd yn oed olygu bod rhai yn cefnu ar gynlluniau llifogydd. Mynegodd partneriaid proffesiynol hefyd bryderon y gallai'r cyllid a'r adnoddau fod yn annigonol yn y dyfodol, yn enwedig yng nghyd-destun cynnydd yn risg llifogydd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Fodd bynnag, gwelid newidiadau i'r ddeddfwriaeth megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf newydd Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gyfleoedd i feddwl am sut mae hybu ymwybyddiaeth ehangach o risg llifogydd a mesurau gwytnwch.

Sicrhau darpariaeth effeithiol yng nghyd-destun toriadau i'r gyllideb

Bu'r adolygiad yn ystyried nifer o sefyllfaoedd toriadau i gyllideb CNC oddi mewn i'r dull gweithio presennol, a chafwyd y byddai unrhyw doriad i'r gyllideb yn arwain at leihau'r ddarpariaeth i ryw raddau, gydag effaith anochel ar weithgareddau allweddol Ymwybyddiaeth Llifogydd Cymru, a fyddai'n cyfleu neges amwys i bartneriaid a chymunedau ynghylch y flaenoriaeth a roddir i wytnwch yn wyneb llifogydd. Yn hytrach, byddai angen newid rôl CNC yn sylfaenol o ran ymgysylltu cymunedol wrth reoli risg llifogydd petai angen gwneud toriadau i'r gyllideb.

Systemau gwerthuso i'r dyfodol i olrhain cynnydd o ran y cymhellion tymor hir

Mae CNC yn casglu data gan staff ardal ynghylch cynnydd Ymwybyddiaeth Llifogydd Cymru yn erbyn targedau sy'n ymwneud â chynlluniau llifogydd cymunedol. Mae gwaith i'w wneud o hyd i sicrhau bod y data'n cael ei gasglu a'i grynhoi mewn modd effeithiol a thryloyw. Er yr ymddengys yn bwysig cynnwys gwirfoddolwyr yn y broses o gasglu data, er mwyn medru monitro newidiadau yng ngwytnwch cymunedau ar lefel leol, dylai unrhyw gynlluniau ar gyfer monitro a gwerthuso yn y dyfodol ystyried y baich posibl ar wirfoddolwyr.

Casgliadau ac argymhellion

Ar sail y dystiolaeth a adolygwyd, mae'r adroddiad yn cyflwyno nifer o argymhellion ynghylch y camau gweithredu posibl wrth symud ymlaen.

- Argymhelliad 1: Dylid cydnabod gwerth gwaith CNC ar gynlluniau llifogydd ac ymgysylltu â chymunedau trwy Ymwybyddiaeth Llifogydd Cymru am ei gyfraniad at wytnwch cymunedau yn wyneb perygl llifogydd yng Nghymru.
- Argymhelliad 2: Bod CNC yn adolygu pa ddulliau o ymdrin â chynlluniau llifogydd cymunedol y gallai fod eu hangen ar gymunedau, yn dibynnu ar eu capasiti gwytnwch.
- Argymhelliad 3: Bod CNC yn adolygu'r dull "cyffyrddiad ysgafn" presennol o fynd ati i gynnal cynlluniau llifogydd, yng ngoleuni canlyniad Argymhelliad 2. Dylid datblygu hyn ymhellach i ganfod beth mae cymunedau am ei gael ym mhob cam o broses y Cynllun Llifogydd Cymunedol. Gellid datblygu'r continwwm ymhellach i greu coeden benderfyniad er mwyn asesu pa fath a lefel o ymgysylltiad fyddai'n fwyaf effeithiol.
- Argymhelliad 4: Bod CNC yn adolygu'r asesiad hwn yn erbyn y targedau ar gyfer gwaith newydd, gyda'r posibilrwydd o newid y targedau cyfredol ar gyfer ymgysylltu â chymunedau newydd ac adolygu'r gofynion adnoddau gyda Llywodraeth Cymru yn ôl y galw.
- Argymhelliad 5: Bod CNC yn adolygu sut mae gweithio ar y cyd ar lefel leol gyda phartneriaid eraill i gyflawni ymgysylltiad ynghylch amrywiaeth o faterion, ond yn benodol mewn ardaloedd lle mae CNC yn arwain yng nghyswllt llifogydd.
- Argymhelliad 6: Bod CNC yn ymwneud fel sy'n briodol â chynlluniau a phrosesau ymgysylltu sy'n cael eu cychwyn gan eraill (e.e. cwmnïau dŵr neu awdurdodau lleol) ac yn ystyried sut mae gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth pan nad yw'n awdurdod arweiniol.
- Argymhelliad 7: Bod CNC yn rhannu ei arbenigedd ym maes ymgysylltu ynghylch perygl llifogydd â phartneriaid proffesiynol eraill, yn benodol awdurdodau lleol, ac yn dysgu o brofiadau eraill.

- Argymhelliad 8: Bod CNC yn adolygu ei ymarfer presennol o ran cefnogi ei wirfoddolwyr, ac yn ystyried cynnal digwyddiadau rhwydweithio, hyfforddi a dysgu rheolaidd.
- Argymhelliad 9: Bod CNC yn ystyried sut gellid caniatáu rhannu Cynlluniau Llifogydd Cymunedol rhwng cymunedau cyfagos sydd mewn perygl, a hynny mewn modd systematig sy'n hwyluso dysgu ac o bosib yn darparu 'llwybrau byr' ar gyfer cymunedau sy'n cychwyn ar eu proses o gynllunio ar gyfer llifogydd.
- Argymhelliad 10: Byddai'n fuddiol bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu canolbwynt ar gyfer dysgu a rhannu rhwng CNC, awdurdodau lleol, cyrff anllywodraethol ac ati, yng nghyswllt gweithio gyda gwirfoddolwyr ar draws pob sector – nid yng nghydestun llifogydd yn unig.
- Argymhelliad 11: Bod Llywodraeth Cymru yn edrych eto ar Wasanaeth Cymorth Llifogydd i Gymru, a rôl bosibl cyfryngwyr.
- Argymhelliad 12: Wrth ymdrin ag Argymhellion 4 a 5 bod CNC yn adolygu'r sefyllfaoedd a'r effeithiau a drafodwyd yng nghyswllt costau a risg o ran enw da.
- Argymhelliad 13: Bod CNC yn gweithio gydag arbenigwyr GIS mewnol i ddatblygu map cyfun sy'n dangos lleoliad Cynlluniau Llifogydd Cymunedol mewn perthynas ag ardaloedd lle ceir risg llifogydd.
- Argymhelliad 14: Bod CNC yn datblygu dangosyddion NRW ar gyfer capasiti gwytnwch cymunedau yng nghyswllt rheoli perygl llifogydd, gan adeiladu ar waith blaenorol yn y maes hwn.